## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn rhagnodi dan ba amgylchiadau y mae'n rhaid i bennaeth wneud cais i rieni disgybl o oed ysgol gorfodol a waharddwyd fynychu cyfweliad ailintegreiddio o dan adran 102 o Ddeddf Addysg ac Arolygiadau 2006 ("Deddf 2006"), ac yn rhagnodi'r weithdrefn y mae'n rhaid trefnu'r cyfweliad oddi tani.

Mae rheoliad 3 yn ei gwneud yn ofynnol i bennaeth wneud cais am gyfweliad â rhiant disgybl o oed ysgol gorfodol a waharddwyd o ysgol gynradd am unrhyw gyfnod gosodedig, neu o ysgol uwchradd am gyfnod gosodedig o chwe niwrnod ysgol neu fwy. Rhaid i'r rhiant fod yn unigolyn sy'n preswylio gyda'r plentyn. Nid oes angen i bennaeth wneud cais o'r fath os yw'r gwaharddiad yn dechrau o fewn deng niwrnod i ddiwedd tymor yr haf neu os disgwylir i'r disgybl adael yr ysgol am reswm heblaw ei ymddygiad (er enghraifft os yw'r disgybl yn symud i ysgol mewn ardal wahanol).

Mae rheoliad 4 yn ei gwneud yn ofynnol i'r cais gael ei wneud drwy hysbysiad ysgrifenedig ac yn pennu pa wybodaeth y mae'n rhaid ei rhoi yn yr hysbysiad hwnnw. Mae'n rhagnodi cyfnod y mae'n rhaid i'r cyfweliad ddigwydd o'i fewn ac yn ei gwneud yn ofynnol i'r cyfweliad ddigwydd ar ddiwrnod ysgol o fewn y cyfnod hwnnw, er y caiff ddigwydd ar ddiwrnod o fewn y cyfnod hwnnw nad yw'n ddiwrnod ysgol os bydd y rhiant a'r pennaeth yn cytuno ar hynny. Rhaid i'r pennaeth wneud ymdrech resymol i drefnu'r cyfweliad o fewn y cyfnod ar ddyddiad ac ar amser a awgrymir gan y rhiant. Rhaid i'r hysbysiad gael ei roi dim hwyrach na chwe niwrnod cyn bod y cyfweliad i ddigwydd.

Mae rheoliad 5 yn caniatáu cyfuno hysbysiad oddi wrth bennaeth o dan y Rheoliadau hyn a'r hysbysiad yn rhoi gwybod i'r rhiant am y gwaharddiad (o dan reoliadau a wnaed o dan adran 52(3)(a) o Ddeddf Addysg 2002).

Mae adran 572 o Ddeddf Addysg 1996 yn darparu ar gyfer sut y caniateir rhoi'r hysbysiad. Caniateir ei ddanfon at y rhiant, ei adael yng nghyfeiriad arferol, neu gyfeiriad hysbys diwethaf y rhiant, neu ei anfon mewn llythyr gyda chyfeiriad arno ac y talwyd amdano ymlaen llaw i'r cyfeiriad hwnnw. Caniateir ei anfon drwy e-bost os yw'r rhiant wedi cytuno i ddefnyddio e-bost i dderbyn hysbysiadau.